# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Chwefror 3ydd 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Eifion Davies Gwynedd Jones a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Iolo Evans, Meilir Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cynllun Fferm Wynt Foel Fach arfaethedig **- croesawyd swyddogion Coriolis Energy a Chadno Communications i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar y prosiect a chyfle i'r cynghorwyr holi cwestiynnau. Gweler ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio isod.**

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Rhagfyr 2il 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cyfoeth Naturiol Cymru – Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr. **Roedd wedi dod i sylw'r clerc fod cyfnod ymgynghori newydd ar hyn o bryd ond nid oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ail anfon y sylwadau a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.**

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Maes Fedw, Llanfor, 26/02/26.
ii) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Cae'r Garreg, Cwmtirmynach, 12/02/26.

<u>b) Canolfan Henblas.</u>
i) Lansiad Car Cymunedol Y Bala a Phenllyn.
ii) Holiadur Digidol.

<u>c) Un Llais Cymru.</u>
i) Polisi Pryderon a Chwynion. **Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi newydd a'i arddangos ar y wefan.**

<u>ch) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

<u>d) Amrywiol.</u>
i) Cais am fin halen i bentref Sarnau.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
i) C25/0941/04/DT – Cais i godi estyniad deulawr ayyb. Ty Cipar, Cwmtirmynach.
**Nodwyd rhai pryderon am agweddau o'r cynllun a chytunwyd i nodi y byddai'r Cyngor yn gadael y penderfyniad i swyddogion cynllunio Cyngor Gwynedd.**

ii) Fferm Wynt Foel Fach– ymgynghoriad cyn ymgeisio.
**Trafodwyd yr hyn a welwyd yn y diwrnodau agored yn ddiweddar a'r llythyrau a dderbyniwyd gan drigolion lleol. Cytunwyd yn unfrydol i grynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd a'u cyflwyno i Coriolis Energy.**

<u>vi) Materion Ariannol.</u>
<u>a) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2026-27. **Nodwyd.**

<u>b) Adroddiad Ariannol (Hyd-Rhag 2025)</u> – **Cymeradwywyd.**

c) Derbyniadau.
i) Cronfa Gwynedd Ni - £9000

ch) Taliadau
i) Sion Jones – man waith trwsio & clirio. C**ymeradwywyd.**

d) Ceisiadau ariannol.
Urdd Cylch Meirionnydd, Marie Curie, Llen y Llannau, Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel a Hosbis Ty'r Eos.
**Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH, MAWRTH 3ydd YN NEUADD BRO DERFEL.**